# CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 22 Mehefin, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd E. Goodjohn.

## C27 CYHOEDDIAD –

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac y caiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwylio yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr ‘fudo’ eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwyr yn dymuno siarad, y dylent godi eu llaw (i gael eu gweld ar y sgrîn) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd sicrhau bod pob trafodaeth ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cabinet wedi ymweld â dwy ysgol y diwrnod hwnnw. Ysgol Gynradd Holton er mwyn nodi Diwrnod Windrush, ac Ysgol Gynradd Oakfield i ymweld â'i hardal goetir. Mynegodd yr Arweinydd ddiolch a gwerthfawrogiad i'r ddwy ysgol.

## C28 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

## C29 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C30 YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL (ADRODDIAD RICHARD PENN); A CHYSONI TROTHWYON ANRHEGION A LLETYGARWCH I GYD-FYND AG YMAGWEDD CYMRU GYFAN (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Safonau ar 8 Mehefin, 2023, a oedd wedi'i ystyried a'i gefnogi gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor Safonau'n manylu ar yr ymateb a awgrymwyd i bapur ymgynghori diweddar Llywodraeth Cymru ar argymhellion Fframwaith Safonau Moesegol adolygiad Richard Penn, ac wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor Safonau wedi ystyried yr ymateb i Atodiad 1 ac wedi awgrymu rhai diwygiadau a oedd wedi cael eu hymgorffori.

Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd wedi argymell i’r Cabinet y dylid diwygio trothwy Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Rhoddion yn unol â pharagraff 1.5 o’r adroddiad fel a ganlyn: Rhoddion, buddion materol neu fanteision - £25.00 neu gyfanswm o £100.00 dros flwyddyn o un ffynhonnell.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hyny

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r ymateb drafft yn Atodiad 1 a'r diwygiadau dilynol a wnaed gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2023.

(2) CYMERADWYO newid trothwy Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Rhoddion, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.5 o'r adroddiad (Rhoddion, buddion materol neu fanteision - £25.00 neu gyfanswm o £100.00 dros gyfnod o flwyddyn o un ffynhonnell.

(3) CYMERADWYO dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, i ddiwygio'r ymateb fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1-3) Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod

**C31 DIWEDDARIAD PLATFFORM CYFARFOD HYBRID (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol dyddiedig 21 Mehefin, 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod canfod datrysiad ar gyfer y platfform cyfarfodydd hybrid wedi bod yn sefyllfa gymhleth iawn, gan fod angen i'r platfform ystyried anghenion

preswylwyr a oedd yn gwylio cyfarfodydd yn ogystal â'r rhai a oedd yn dymuno cymryd rhan. Roedd y Pwyllgor Craffu wedi argymell y dylai'r Cyngor lunio adroddiad i fyfyrio ar y Prosiect Platfform Cyfarfodydd Hybrid, a dywedodd yr Arweinydd ei bod hi bob tro'n syniad da myfyrio ar yr hyn a ddysgir yn sgil prosiectau. Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor Craffu hefyd wedi argymell i'r Cyngor (gan gyfeirio at yr Adran TGCh) ystyried a oedd angen y buddsoddiad a gynigiwyd i osod cyswllt band eang 500Mbps dynodedig yn Ystafell Glyweledol Siambr y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd y bu trafodaeth fanwl yn y Pwyllgor Craffu, gyda rhai Aelodau'n mynegi pryder ynghylch cynnydd y prosiect. Roedd hi'n bwysig i'r Cabinet gydnabod rôl Craffu i herio, felly mynegodd yr Aelod Cabinet ei fod o blaid yr argymhellion.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â’r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol ei bod yn bwysig i’r Cyngor gael y broses orau er mwyn sicrhau cymaint o gyfranogiad ag sy'n bosibl yng nghyfarfodydd y Cyngor, a chytuno y dylid llunio adroddiad myfyrio.

Cefnogodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Llesiant y sylwadau a wnaed gan Aelodau eraill y Cabinet, a chyfeirio at ofynion yn gysylltiedig â'r Gymraeg, a hefyd at y ffaith bod angen datrysiadau TG addas i gefnogi anghenion pobl, ee rhai â nam ar y clyw.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hyny

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLAI Adran TGCh y Cyngor ystyried ymhellach a oes angen y buddsoddiad a gynigiwyd i osod cyswllt band eang 500Mbps dynodedig yn Ystafell Glyweledol Siambr y Cyngor (fel bo modd gwahanu'r systemau hybrid a ffrydio'n gyfan gwbl oddi wrth rwydwaith mewnol y Cyngor).

(2) Y DYLID llunio adroddiad myfyrdodau cynhwysfawr i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu, yn amlinellu'r llinell amser ar gyfer y Prosiect Platfform Cyfarfodydd Hybrid (gan gynnwys Civico), yr agweddau ariannol a chyfreithiol, y llwyddiannau a'r heriau, yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y Prosiect.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod

**C32 CH4 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH 2022/2023 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a’i ddiben oedd diweddaru’r Cabinet ar yr ystadegau absenoldeb salwch ar gyfer 1 Ebrill, 2022 i 31 Mawrth, 2023.

Dywedodd yr Arweinydd mai un o'r heriau mawr o flaen y Cyngor oedd cydnerthedd y gweithlu, yn enwedig yng nghyd-destun gostyngiadau i'r gyllideb a phroblemau'n recriwtio ac yn cadw staff ar ôl Covid-19. Roedd hynny'n golygu bod pwysau ychwanegol ar y staff.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys 4 Atodiad (A i D), gydag Atodiad A yn dadansoddi absenoldeb fesul maes gwasanaeth ac Atodiad B yn dangos y cyfraddau absenoldeb salwch cyffredinol. Dywedodd yr Arweinydd, ers codi cyfyngiadau Covid, mai'r prif reswm am salwch oedd straen nad oedd yn gysylltiedig â'r gwaith. Roedd y rhesymau am hynny'n gymhleth ond yn debygol o ddeillio o ffactorau fel bod pobl yn gwella ar ôl effeithiau Covid a'r argyfwng costau byw. Roedd hi felly'n bwysig i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol edrych yn fanylach ar y ffigurau absenoldeb salwch ac anfon eu hawgrymiadau neu eu hymholiadau'n ôl i'r Cabinet.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu, wrth gyfeirio at ei feysydd gwasanaeth, fod absenoldeb salwch bob amser yn her oherwydd natur y gwaith, y rhan fwyaf ohono ar y rheng flaen ac ym mhob tywydd. Roedd y rolau'n feichus iawn gyda llawer o bwysau o ran amser, yn enwedig i fodloni disgwyliadau wrth gasglu gwastraff a deunyddiau ailgylchu o gartrefi, yn ogystal â gwastraff gardd. Byddai staff ar adegau hefyd yn cael cyfnodau o salwch oherwydd problemau cyhyrol, a dyna pam bod gan y Cyngor raglen hyfforddi codi a chario. Cytunai'r Aelod Cabinet â sylwadau'r Arweinydd ynghylch heriau bywyd, fel yr argyfwng costau byw a Covid hir, a byddai'n cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr i edrych ar y materion yn fanylach.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi'r adroddiad a'r ffigurau absenoldeb salwch Ebrill 2022 i Fawrth 2023 a ddarparwyd yn Atodiad A.

(2) Y DYLID cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried, gan gyfeirio unrhyw sylwadau yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried ymhellach.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Dwyn materion i sylw Aelodau'r Cabinet yn unol ag amcanion corfforaethol.

(2) Galluogi'r Pwyllgor Sgriwtini i barhau i ganolbwyntio ar reoli absenoldebau salwch ar draws holl wasanaethau'r Cyngor a gwneud argymhellion i'r Cabinet, fel y bo'n briodol.

**C33 CAFFAEL RHAGLEN DREIGL A PHROSIECTAU CYSYLLTIEDIG ERAILL GWASANAETHAU YMGYNGHOROL AMLDDISGYBLAETHOL AR GYFER CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU (SCFL) (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a’i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i dendro am gynnig contract i ddarparu gwasanaethau ymgynghori amlddisgyblaethol ar gyfer rhaglen dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a phrosiectau eraill cysylltiedig.

Dywedwyd bod y Cyngor yn 2016 wedi cynnal ymarfer caffael i benodi cwmni ymgynghori amlddisgyblaethol i helpu i ddarparu rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a elwir bellach yn rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Yn dilyn ystyriaeth gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2016 (gweler cofnod C3384), dewisodd y Cyngor Aecom Ltd, gyda'r bwriad i gwblhau darparu cynlluniau Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy 2024/2025.

Yn sgil penodiad llwyddiannus Aecom Ltd, dywedodd yr Aelodau Cabinet fod y cwmni wedi helpu'r Cyngor i ddatblygu 3 ysgol gyfun (Ysgol Uwchradd Whitmore, Ysgol Bro Morgannwg ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre), i ddatblygu 3 ysgol gynradd (gan gynnwys yr ysgol gyntaf Carbon Sero Net ar Waith yng Nghymru, Ysgol Gynradd South Point, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ac Ysgol Sant Baruc) yn ogystal â lleoliad gofal plant (Ysgol Dewi Sant).

Roedd y prosiectau Band B a oedd yn weddill yn cynnwys 2 ysgol gynradd (Ysgol Gynradd y Bont-faen ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Niclas) a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (Derw Newydd a adwaenid gynt fel y Ganolfan Dysgu a Llesiant). Roedd y prosiectau hyn yn cael eu hadeiladu. Prosiect olaf rhaglen Band B oedd datblygu Ysgol Gyfun Sant Richard Gwyn a oedd ar hyn o bryd yn destun cais am ganiatâd Cynllunio.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod hi'n ofynnol i'r Cyngor dendro am wasanaethau amlddisgyblaethol i gynnal y rhaglen am gyfnod cyflawni pellach o hyd at 6 blynedd. I'r perwyl hwnnw, byddai'r Cyngor yn cynnal ymarfer caffael o dan Gytundeb Fframwaith SEWTAPS (Gwasanaethau Technegol a Phroffesiynol De Ddwyrain Cymru).

Pwrpas yr ymarfer hwnnw fyddai penodi tîm ymgynghori amlddisgyblaethol i ddarparu'r sgiliau arbenigol angenrheidiol er mwyn bwrw ymlaen i ddatblygu rhaglen dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn ogystal â darparu ymgynghorwyr arbenigol perthnasol ar brosiectau allweddol eraill a nodir ym mhortffolio eiddo'r Cyngor yn ôl yr angen.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod y dull hwn wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ers 10 mlynedd, a golygai hynny fod gan y Cyngor fynediad at arbenigedd a allai ei helpu gydag agweddau fel mesur meintiau a rheoli prosiectau. Dyna un o'r rhesymau pam, ers 2010, bod y Cyngor wedi gallu uwchraddio neu adnewyddu nifer o ysgolion yn llwyr ar amser, ac yn unol â'r gyllideb. Roedd y cytundeb fframwaith hefyd yn golygu, pe bai heriau'n codi wrth gyflawni prosiect, y byddai gan y Cyngor ffynhonnell cyngor annibynnol a allai edrych ar unrhyw gynnydd posibl yn y contractau.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO cychwyn ymarfer caffael i benodi tîm amlddisgyblaethol i gefnogi cyflawni rhaglen dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

(2) Y DYLID cyflwyno penodiad tîm arbenigol amlddisgyblaethol gerbron y Cabinet mewn adroddiad pellach yn gofyn am gael cymeradwyo'r tendr llwyddiannus, wedi i'r cyflwyniadau tendr ddod i law a chael eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf gofynnol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Sicrhau bod gan y Cyngor yr arbenigedd angenrheidiol i gynnal rhaglen dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

(2) Y dylai'r contract gael ei ddyfarnu ar sail y tendr mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd, gan fodloni ymrwymiad y Cyngor ar yr un pryd i ddatblygu mewn modd cynaliadwy.

## C34 ADRODDIAD RHAGLEN GYFALAF Y BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a ofynnai am ganiatâd y Cabinet i gyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’i hymrwymiad i gefnogi a chryfhau’r sector gofal plant a dirprwyo pwerau penodol yn ymwneud â chyflawni’r prosiectau’n lleol.

I gefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu, cynnal a gwella gofal plant a seilwaith Dechrau'n Deg, roedd saith prosiect cyfalaf wedi cael eu nodi drwy ddefnyddio data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) i gael yr ardaloedd uchaf o blith Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) a PARIS (cronfa ddata'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol) sy'n rhoi'r cofnod mwyaf cyfredol o oedrannau plant, Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 a gwybodaeth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ynghylch ymholiadau gan rieni am ofal plant.

Roedd y saith prosiect yn cynnwys:

- Uned gofal plant ar safle Murch Ysgol Gynradd Dinas Powys.
- Uned gofal plant ar safle Ysgol Gynradd Sain Tathan.
- Uned gofal plant ar safle Ysgol Gynradd Tregatwg, Y Barri.
- Estyniad i ddarpariaeth bresennol Bumblebees yn Ysgol Gynradd Colcot, y Barri i gynyddu lleoedd gofal plant.

- Datblygu darpariaeth gofal plant newydd cyfrwng Cymraeg ar safle Pen-Y-Garth, Penarth. Adleoli darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg bresennol o Ddinas Powys i'r safle hwn i ganiatáu twf.
- Estyniad ar ddarpariaeth bresennol Cylch Meithrin Y Bont-faen i gynyddu nifer y lleoedd gofal plant.
- Adnewyddu darpariaeth gofal plant bresennol, darpariaeth Passport to Play yn y Rhws.

Adleisiodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd ei gefnogaeth i'r cynigion gan gyfeirio at effaith hyn nid yn unig ar blant, ond ar deuluoedd a oedd hefyd yn cael cymorth, yn enwedig drwy gynllun Dechrau'n Deg.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Rhoi caniatâd i gyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes i Lywodraeth Cymru, a oedd yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu darpariaeth gofal plant newydd ynghyd â chefnogaeth i ehangu ac/neu wella darpariaeth gofal plant presennol ym Mro Morgannwg.

(2) Y DYLID dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i gymeradwyo defnyddio'r dyraniad o Gronfa'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer prosiectau a arweinir gan y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

(3) AWDURDODI'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau (mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i drafod telerau ac amodau ar gyfer penodi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti ar gyfer prosiectau a arweinir gan y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

(4) AWDURDODI'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol fel bo modd penodi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti ar gyfer prosiectau a arweinir gan y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

(5) Y DYLID dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol gyda thrydydd partïon.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Symud ymlaen â phroses yr Achos Cyfiawnhad Busnes gyda Llywodraeth Cymru.

(2) Cael awdurdod i gymeradwyo defnyddio cyllid Rhaglen Gyfalaf y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar gyfer prosiectau a arweinir gan y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

(3) Cael awdurdod i benodi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti ar gyfer prosiectau a arweinir gan y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle bo angen.

(4) Cael awdurdod i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol fel bo modd penodi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti ar gyfer prosiectau a arweinir gan y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle bo angen.

(5) Cael awdurdod i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol gyda thrydydd partïon.

**C35 AIL-GOMISIYNU GWASANAETHAU GOFAL CARTREF GOFAL YCHWANEGOL YM MRO MORGANNWG (GCI) (CRAFFU – BWY YN IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a ofynnai am awdurdod i roi darpariaeth gofal cartref a chymorth yng nghyfleuster tai Gofal Ychwanegol y Cyngor yng Ngolau Caredig ar dendr, a hefyd i ofyn am awdurdod dirprwyol i ddyfarnu'r contract i'r darparydd llwyddiannus.

Roedd y Cyngor wedi dyfarnu contract i ddarparu gwasanaethau i Gymdeithas Gofal Hafod yn 2018 am gyfnod o 5 mlynedd, gan gynnwys estyniad o 2 flynedd. Roedd y contract hwnnw i fod i ddod i ben ym mis Hydref 2023, felly roedd y Cyngor yn bwriadu rhoi'r ddarpariaeth allan ar dendr ym mis Mehefin 2023.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) AWDURDODI’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â’r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, i ddyfarnu’r contract(au) ar gyfer y gwasanaeth am gyfnod cychwynnol o 5 (pum) mlynedd gydag opsiwn i’w ymestyn am gyfnod pellach o 2 (ddwy) flynedd, ar ôl cwblhau proses dendro.

(2) AWDURDODI'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i weithredu contract gyda'r cynigydd llwyddiannus.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth mewn modd cost-effeithiol, yn bodloni anghenion asesedig y preswylwyr sy’n byw yng Ngolau Caredig ac yn cyflawni’r cyfrifoldebau a nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth

Cymru ar Ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol yng Nghymru 2006 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion ei Reolau Gweithdrefn Contractau a'i Reolau Gweithdrefn Ariannol.